# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL



## Ysgol newydd i Gricieth

## 6 Tachwedd 2020 – 18 Rhagfyr 2020

# Cynnwys


| Adran | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 1 |
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 1.1 | Beth yw Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif? | 2 |
| 1.2 | Beth rydym yn anelu i'w wneud yng Nghricieth? | 3 |
| 2 | Yr Ymgynghoriad | 3 |
| 2.1 | Pam rydym yn cynnal ymgynghoriad statudol? | 3 |
| 2.2 | Pam newid y capasiti? | 3 |
| 2.3 | Pwy rydym yn ymgynghori â nhw? | 4 |
| 2.4 | Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth? | 6 |
| 2.5 | Safbwyntiau plant am y cynnig | 6 |
| 2.6 | Beth fydd yn digwydd i'r sylwadau dderbynnir? | 6 |
| 3 | Gwybodaeth am sefyllfa bresennol Ysgol Treferthyr | 7 |
| 3.1 | Niferoedd | 7 |
| 3.2 | Arolwg Estyn | 8 |
| 3.3 | Cyllid | 8 |
| 3.4 | Cyflwr ac addasrwydd | 8 |
| 3.5 | Effaith posib ar ysgolion cyfagos | 8 |
| 4 | Datblygu'r cynnig | 9 |
| 4.1 | Rhestr hir | 9 |
| 4.2 | Rhestr fer | 10 |
| 4.3 | Cytuno safle ffafredig | 10 |
| 5 | Y Cynnig | 11 |
| 5.1 | Lleoliad y safle | 11 |
| 5.2 | Sut fydd yr ysgol yn edrych? | 12 |
| 5.3 | Beth fydd effaith y cynnig? | 13 |
| 5.4 | Ansawdd a Safonau Addysg | 14 |

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 5.5 | Trefniadau Llywodraethol | 15 |
| 5.6 | Materion yn ymwneud â'r Staff | 15 |
| 5.7 | Tir ac Adeiladau | 15 |
| 5.8 | Costau Cyfalaf | 15 |
| 5.9 | Costau Refeniw | 15 |
| 5.10 | Cludiant | 15 |
| 5.11 | Amgylchedd Dysgu | 16 |
| 5.12 | Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg | 16 |
| 5.13 | Asesiad Cydraddoldeb | 16 |
| 5.14 | Asesiad Llesiant | 17 |
| 5.15 | Asesiad Effaith ar y Gymuned | 17 |
| 5.16 | Manteision ac Anfanteision y Cynnig | 18 |
| 5.17 | Risgiau ynghlwm â'r Cynnig | 19 |
| 6 | Camau Nesaf | 20 |
| 6.1 | Proses ymgynghori | 20 |
| 6.2 | Amserlen arfaethedig | 20 |
| 6.3 | Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad? | 21 |

# Rhagair

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar y **13 Hydref 2020,** penderfynodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 gan adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.`

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **6 Tachwedd a 18 Rhagfyr 2020.**

Byddai Cyngor Gwynedd yn hoffi i chi gyflwyno eich sylwadau ar y cynnig fel y gellir ei hystyried cyn gwneud penderfyniad. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndirol eraill, ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Os ydych angen rhagor o gopïau mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy ffonio (01286) 679640 neu drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

**SYLWER** – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol yn electronig, drwy e-bost neu yn ysgrifenedig at Ysgol Treferthyr, Cricieth erbyn **13:00 ar ddydd Gwener, 18 Rhagfyr 2020**. Cewch hyd i'r manylion cyswllt perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,



Garem Jackson
**Pennaeth Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Yn Ebrill 2009 mabwysiadwyd strategaeth **“Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd”** gan y Cyngor gyda’r nod o osod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer yr ystyriaethau perthnasol i drefniadaeth ysgolion y Sir. Nodwyd yn y Strategaeth fod angen sicrhau modd o fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sydd yn fregus:
*“Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy’n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau’r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth)”.*
Yn dilyn arolygon cyflwr diweddar, mae Gwasanaeth Eiddo’r Cyngor o’r farn fod Ysgol Treferthyr mewn cyflwr gwael iawn a bellach tu hwnt i’r sefyllfa ble ellir ei gynnal a chadw. Mae’r arolygon cyflwr yn rhoi’r ysgol yng nghategori cyflwr C- oherwydd eu bod wedi adnabod sawl mater sy’n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i’r adeiladwaith. O beidio â chynllunio nawr ar gyfer datrysiad tymor hir mae risg uchel o orfod delio gyda sefyllfa brys o fewn y blynyddoedd nesaf.

Yn ogystal a chyflwr hynod ddrwg yr ysgol mae arolwg addasrwydd diweddar wedi nodi fod yr ysgol bresennol yn wael iawn a bod yr adeiladau yn amharu'n sylweddol ar allu'r staff i ddarparu’r cwricwlwm. Nid yw'r adeilad gwreiddiol na'r estyniad aml-lawr/caban yn gymorth i staff yr ysgol gynnig addysg i'r safon ddisgwyliedig.

Oherwydd y rhesymau hyn bu i Gyngor Gwynedd gyflwyno cais i Llywodraeth Cymru am arian cyfalaf o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif er mwyn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Yn dilyn cymeradwyaeth o’r cais gan y Llywodraeth mae’r Cyngor wedi bod yn trafod problemau’r ysgol bresennol ac ystyried opsiynau ar gyfer yr ysgol newydd gyda chynrychiolaeth o Ysgol Treferthyr mewn Panel Adolygu Lleol. Yn dilyn nifer o gyfarfodydd cytunodd aelodaeth y Panel mae adeiladu ysgol newydd gyda chapasiti o 150 ar safle A497 fydda’r opsiwn orau ar gyfer addysg gynradd i’r dyfodol yng Nghricieth.

Mae'r ddogfen hon wedi ei greu er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Treferthyr yn ogystal ag unrhyw rai eraill fydd a diddordeb am y cynnig ynghyd a gwybodaeth cefndirol perthnasol.

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Bydd unrhyw sylwadau yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.

## 1.1 Beth yw Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif?

Mae'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a'i nod yw sicrhau ysgolion sydd yn addas ar gyfer 21ain ganrif yng Nghymru.

Cafodd ton gyntaf y rhaglen (Band A) ei chynnal o 2014 i 2019 a llwyddodd Cyngor Gwynedd i ddenu buddsoddiad sylweddol er mwyn gallu gwneud gwaith mewn sawl ysgol ar draws y sir gan gynnwys adeiladu dwy ysgol gynradd newydd i gymryd lle rhai oedd mewn cyflwr gwael.

Bellach rydym wedi sicrhau buddsoddiad o Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) sydd yn rhedeg rhwng 2019-26. Roedd arian cyfalaf ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth yn rhan o’r cais llwyddiannus hwn.

### 1.2 Beth rydym yn anelu i'w wneud yng Nghricieth?

Prif bwrpas y prosiect ydi cynnig darpariaeth cynradd well i blant Cricieth oherwydd cyflwr gwael ac anaddasrwydd yr ysgol bresennol. Mi fydd yr ysgol newydd yn cynnig cyfleusterau cynradd i'r maint a safon disgwyliedig ar gyfer yr 21ain ganrif gyda capasiti ar gyfer 150 disgybl. Mi fydd yr ysgol yn cynnwys 6 dosbarth gyda mynediad i'r tu allan, neuadd, cegin ac ystafell aml-bwrpas a llyfrgell. Mi fydd hyn oll ar un llawr sy'n golygu mynediad hawdd i bawb.

Tu allan mi fydd ardal chwarae llawr caled, ardal gemau amlbwrpas a cae chwarae gwair sy'n golygu y bydd adnoddau delfrydol ar gyfer addysg gorfforol a chwarae i pob oedran.
Mi fyddwn hefyd yn lleoli Uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar ac Anawsterau Llefaredd ar gyfer plant yr ardal ar y safle yn ogystal ag ystafell pwrpasol ar gyfer defnydd plant cyn ysgol.
Mi fydd mynediad hawdd i'r safle i gerbydau gyda digon o le parcio a lle i rieni allu gollwng plant yn ddiogel. Mi fydd hefyd mynediad diogel ar droed yn unig o gyfeiriad y dref.
Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau ac adnoddau newydd mi fyddwn yn annog defnydd gan y gymuned ar adegau addas.

## 2. Yr Ymgynghoriad

### 2.1 Pam rydym yn cynnal ymgynghoriad statudol?

Mae'n ofynnol o dan Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gynnal ymgynghoriad statudol gyda buddiolwyr perthnasol pan fyddwn yn gwneud 'newid a reoleiddir' i ysgol. Mae'r cynnig hwn yn destun i ymgynghoriad statudol gan ein bod yn cynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 a fod hyn yn gynnydd o dros 25% o gapasiti presennol yr ysgol.

### 2.2 Pam newid y capasiti?

Wrth gydnabod gwersi o brosiectau blaenorol mae'r Cyngor o'r farn fod rhaid i gynlluniau adeiladu ysgolion newydd fod ar sail yr holl blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol bresennol yn hytrach na'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol ar y pryd.
Fel y gwelir o **Tabl 1** isod, ar sail ffigyrau Medi 2020, roedd potensial i niferoedd Ysgol Treferthyr fod yn 146 h.y 117 yn yr ysgol a 29 o'r dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Oherwydd hyn mae'n fwriad i adeiladu yr ysgol newydd i gynnwys 5 dosbarth ar gyfer plant oed derbyn i blwyddyn 6 a dosbarth meithrin. Mi fydd gwneud hyn yn gwarantu digon o le ar gyfer y nifer presennol a rhai o'r dalgylch fydd o bosib yn mynychu unwaith fydd yr ysgol newydd yn agor.
Golygai hyn y byddwn angen cynyddu capasiti yr ysgol i 150 a gan fod capasiti presennol yr ysgol yn 119 mae'n golygu bydd cynnydd o dros 25% i'r capasiti. Mi fyddwn felly angen dilyn trefn statudol yn union a gofynion Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Tabl 1 – Niferoedd disgyblion Ysgol Treferthyr a’r 3 ysgol arall cyfagos a’i dalgylch cartref (Medi 2020)**

| | | Dalgylch Cartref | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Treferthyr | Llanystumdwy | Garndolben-maen | Y Gorlan | Arall | **Cyfanswm** |
| Ysgol | Treferthyr | 110 | 3 | 1 | 0 | 3 | 117 |
| | Llanystumdwy | 9 | 8 | 0 | 0 | 4 | 21 |
| | Garndolbenmaen | 3 | 0 | 27 | 0 | 6 | 36 |
| | Y Gorlan | 9 | 2 | 4 | 48 | 58 | 121 |
| | Arall | 8 | 8 | 6 | 28 | | |
| | Cyfanswm | 139 | 21 | 38 | 76 | | |

## 2.3 Pwy rydym yn ymgynghori â nhw?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mi fyddwn felly yn dosbarthu’r ddogfen ymgynghori i'r ymgynghorai canlynol yn unol â gofynion y Cod:

| **Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018** | **Dosberthir i...** |
|---|---|
| Awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Cyngor Gwynedd sy’n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo’n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi; | |
| Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni; | |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy’n destun cynigion; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Treferthyr |
| Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae’r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt; | Corff Llywodraethwyr Ysgol Llanystumdwy<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Garndolbenmaen<br>Corff Llywodraethwyr Ysgol Y Gorlan |

| | |
|---|---|
| Gweinidogion Cymru; | Gweinidogion Cymru |
| Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | AC Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>ACau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru<br>Helen Mary Jones AC<br>Neil Hamilton AC<br>Joyce Watson AC<br>Eluned Morgan AC<br>AS Etholaeth Dwyfor-Meirionnydd<br>Lis Saville Roberts AS |
| Estyn; | Meilyr Rowlands – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol; | Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr Gwe |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun cynigion; | Cyngor Tref Cricieth |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin; | Cylch Meithrin Cricieth |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli; | Gwynedd Ni<br>Mudiad Meithrin – Arbenigwyr Blynyddoedd Cynnar |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion; | Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; | Ysgol Eifionydd |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg. | Comisiynydd y Gymraeg, |
| Arall | Holl Gynghorwyr Cyngor Gwynedd<br>Mantell Gwynedd<br>Cymuned ehangach Cricieth |

## 2.4 Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'i creu a'u cynnwys ar wefan y Cygnor drwy ddilyn y linc www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Ffurflen ymateb
- Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant
- Dogfen ymgynghori (fersiwn plant)
- Holiadur (fersiwn plant)
- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Ebrill 2019
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Hydref 2020
- Adroddiad arolwg Estyn Ebrill 2018

Gan fod yr ymgynghoriad yn syrthio yng nghanol cyfnod COVID-19 rydym wedi addasu ein trefniadau arferol ble byddwn wedi rhoi copïau caled o'r ddogfen ymgynghori i rhieni a staff. Oherwydd risgiau o drosglwyddo'r haint drwy wneud hyn rydym yn rhannu copïau PDF o'r ddogfen a linc i'r dogfennau ategol ar safle Moderneiddio Addysg ar wefan Cyngor Gwynedd yn lle. Wedi dweud hynny, yn unol a chanllawiau'r Cod, os ydi rhywun angen copi caled yna mi drefnwn i ddanfon copi ichi.

Oherwydd goblygiadau COVID-19 ni fyddwn yn gallu cynnal unrhyw sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb felly hoffem gynnig cyfle i chi gyflwyno cwestiynau er mwyn cael eglurder ar unrhyw fater yn ymwneud â'r ymgynghoriad drwy anfon e-bost at: moderneiddioaddysg@gwynedd.gov.uk yn ddelfrydol yn ystod pythefnos gyntaf yr ymgynghoriad h.y **rhwng 6-20 Tachwedd 2020**. Byddem yn ymateb cyn ddiwedd yr ymgynghoriad. Lle'n briodol byddem hefyd yn cynnwys y cwestiwn ac ateb ar ein gwefan er budd ymgynghorai eraill.

## 2.5 Safbwyntiau plant am y cynnig

Gwneir trefniadau i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Treferthyr. Bydd sesiynau dynodedig yn cael eu cynnal gyda grŵp o ddisgyblion o'r ysgol gyda chymorth y pennaeth. Mae'r ddogfen ymgynghori ynghyd â ffurflen ymateb/holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Golygai hyn y gall plant a phobl ifanc sydd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

## 2.6 Beth fydd yn digwydd i'r sylwadau dderbynnir?

Caiff y sylwadau a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad a'u cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

# 3. Gwybodaeth am sefyllfa bresennol Ysgol Treferthyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Mae'r ysgol yng nghanol tref Cricieth wrth caeau chwarae ac hamdden | |
| **Ystod Oedran** | | 3 -11 | |
| **Categori'r Ysgol** | | Ysgol Gymunedol | |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cymraeg | |
| | | Derbyn – Bl 6 | Meithrin |
| **Niferoedd o ddisgyblion ar y gofrestr Medi 2020** | | 99 | 18 |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr am y pedair blynedd flaenorol** | **Medi 2019** | 98 | 16 |
| | **Medi 2018** | 102 | 12 |
| | **Medi 2017** | 97 | 13 |
| | **Medi 2016** | 107 | 14 |
| **Capasiti** | | 119 | 17 |
| **Llefydd Gweigion Medi 2020 (Derbyn – Bl.6)** | | 20 | |
| **Rhagamcanion disgyblion** | **Medi 2021** | 102 | 13 |
| | **Medi 2022** | 99 | 13 |
| | **Medi 2023** | 128 | 13 |
| | **Medi 2024** | 128 | 13 |
| | **Medi 2025** | 128 | 13 |
| **Data perfformiad Ysgolion (Estyn)** | | 5 x Da (2018) | |
| **Categori Cyflwr Adeiladau (Criteria'r Cyngor)** | | C- | |
| **Dyraniad Cyllidol 2020/21** | | £442,762 | |
| **Cost y disgybl 2020/21** | | £4,215 | |

## 3.1 Niferoedd

Mae gan yr ysgol capasiti o 119, a mi oedd 99 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ac 18 meithrin ar y gofrestr yn Medi 2020 gyda pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (110) yn dod o dalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 7 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Roedd 29 plentyn o dalgylch Treferthyr yn mynychu ysgolion eraill yn Medi 2020.

Mae rhagamcanion niferoedd disgyblion wedi eu selio ar gwir niferoedd plant sy'n mynychu'r ysgol yn 2020 a ddim yn rhoi ystyriaeth i'r plant sy'n mynd all-dalgylch. Gan ystyried fod 29 plentyn yn mynd all-dalgylch yn Medi 2020, a chymryd fod y posibilrwydd na fydd hyn yn digwydd unwaith fydd ysgol newydd yn agor, y gellir ddisgwyl y bydd niferoedd yn cynyddu o 2023 ymlaen.

## 3.2 Arolwg Estyn

Cafwyd arolwg Estyn diwethaf yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da".

| Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| Da | Da | Da | Da | Da | Gwyrdd |

Roedd Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi Ysgol Treferthyr yn y categori 'gwyrdd' yn 2019.

## 3.3 Cyllid

Mae Ysgol Treferthyr wedi derbyn dyraniad cyllidol o £442,762 am y flwyddyn 2020-21 sy'n golygu fod cyfartaledd y gost fesul disgybl yn £4,215. Cyfartaledd cost y pen holl ysgolion cynradd Gwynedd am yr un cyfnod ydi £4,198.

## 3.4 Cyflwr ac addasrwydd

Yn dilyn arolygon cyflwr, mae Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor o'r farn fod yr ysgol bellach tu hwnt i'r sefyllfa ble ellir ei gynnal a chadw. Mae'r arolygon cyflwr yn ymwneud ag adeiladau Ysgol Treferthyr wedi adnabod sawl mater sy'n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i'r adeiladwaith. Mae rhannau o'r adeiladau o wneuthuriad coed ac o ansawdd gwael. Adeiladwyd rhan sylweddol o'r ysgol gan ddefnyddio adeiladwaith o'r fath Vic Hallam yn y 1970au, oedd i fod ag oes o thua 25 mlynedd a sydd erbyn hyn mewn cyflwr gwael. O beidio â chynllunio nawr ar gyfer datrysiad tymor hir mae risg uchel o orfod delio gyda sefyllfa brys o fewn y blynyddoedd nesaf.

Mae arolwg addasrwydd diweddar wedi nodi fod yr ysgol bresennol yn wael iawn a bod yr adeiladau yn amharu'n sylweddol ar allu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm. Nid yw'r adeilad gwreiddiol na'r estyniad aml-lawr / caban yn gymorth i staff yr ysgol cynnig addysg i'r safon ddisgwyliedig.
Nododd yr arolwg nifer sylweddol o ddiffygion addasrwydd gan gynnwys:

- Sŵn yn creu problem mewn rhai ystafelloedd
- Problemau gyda rheoli tymheredd
- Anawsterau i addysgu o ganlyniad i gynllun ystafelloedd
- Cyfyngiadau i gynnal rhai gweithgareddau
- Lleoliad yn amharu ar addysgu a dysgu e.e. trolis cinio yn gorfod mynd drwy dosbarthiadau
- Dim mynediad i ofod allanol o'r dosbarthiadau
- Angen gwaith sylweddol ar nifer o agweddau i wella amgylchedd allanol yr ysgol
- Nifer o risiau tu fewn a thu allan i'r ysgol
- Goledd yn y caeau chwarae
- Problemau parcio a thraffig

## 3.5 Effaith posib ar ysgolion cyfagos

Fel y gwelir o **Tabl 1** uchod roedd 29 o blant sy'n byw yn nalgylch Treferthyr yn mynychu ysgolion eraill yn Medi 2020. Wrth ystyried beth sydd wedi digwydd pan fod ysgolion newydd wedi eu hadeiladu mewn ardaloedd eraill, mae tueddiad i blant fydda wedi mynd all dalgylch yn hanesyddol i fynychu yr ysgol newydd pan fydd yn agor.

# 4. Datblygu’r cynnig

Yn dilyn derbyn cadarnhad o lwyddiant cais SOP Ysgolion 21ain Ganrif aethpwyd ati i gasglu gwybodaeth am Ysgol Treferthyr a’i dalgylch er mwyn paratoi ar gyfer trafodaethau lleol. Yn dilyn edrych ar niferoedd plant oedd yn mynychu yr ysgol a niferoedd plant y dalgylch oedd yn mynychu ysgolion eraill cytunwyd y bydda angen i’r ysgol newydd fod yn fwy er mwyn gallu cynnig digon o le ar gyfer holl blant y dalgylch (gweler 2.2). Yn dilyn cysylltu a’r ysgolion ble roedd nifer o blant y dalgylch yn mynd mynegodd Ysgol Llanystumdwy y bydda nhw a diddordeb dysgu mwy am ein cynlluniau.

Yn dilyn cymeradwyaeth Cabinet ar 2 Ebrill 2019, aethpwyd ati i gychwyn trafodaethau lleol ar anghenion yr ysgol newydd a’i lleoliad gyda chynrychiolaeth o Ysgol Treferthyr a Llanystumdwy. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf o’r Panel Adolygu Lleol, penderfynodd Ysgol Llanystumdwy nad oeddent am barhau i fod yn rhan o unrhyw drafodaethau pellach.
Cynhaliwyd gweddill cyfarfodydd o'r Panel Adolygu Lleol gyda chynrychiolaeth Ysgol Treferthyr yn unig ble roedd ffocws y cyfarfodydd ar y safle mwyaf addas ar gyfer lleoli yr ysgol newydd.

## 4.1 Rhestr hir

Roedd 11 safle wedi eu hadnabod ar gyfer ystyriaeth ar gychwyn y trafodaethau gan gynnwys nifer oedd wedi eu cynnig gan Gorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr. Gellir gweld lleoliad y safleoedd ar y map isod.




Wrth ystyried y rhestr hir o 11 opsiwn yng nghyfarfod o’r Panel Adolygu Lleol ar 9 Hydref 2019 rhoddwyd sylw i’r gofynion canlynol:

- Maint safle
- Ystyriaethau cynllunio
- Ystyriaethau mynediad a traffig
- Ystyriaethau technegol
- Effaith ar gostau datblygu

Bu i ni ddiystyru 8 opsiwn am resymau oedd yn golygu nad oeddent yn addas i'w ystyried fel opsiwn realistig e.e dim digon mawr, lleoliad problemus, tebygol o fod yn ddrud. Roedd hyn yn cynnwys y safle presennol oherwydd nad oedd digon mawr ar gyfer datblygu ysgol newydd a chapasiti o 150.

Cytunwyd i barhau i ystyried 3 o'r safleoedd gwreiddiol, sef safleoedd 1, 5 ac 11 gan ychwanegu cyfuniad o'r safle presennol (10) + caeau gyferbyn (8) fel opsiwn posib ychwanegol i'w ystyried ymhellach.

## 4.2 Rhestr fer

Yng nghyfarfod nesaf o'r Panel ar 10 Rhagfyr 2019, bu inni ystyried y 4 opsiwn ar y rhestr fer ymhellach drwy ystyried meini prawf ddefnyddiwyd ar gyfer y rhestr hir, wedi eu ddiweddaru yn dilyn gwaith pellach, ac asesiad SWOT o'r 4 safle.

Yn dilyn trafod y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau oedd yn perthyn i'r 4 opsiwn ac unrhyw broblemau mawr oedd wedi amlygu eu hunain ers y cyfarfod blaenorol, cytunwyd ar y ffordd ganlynol ymlaen:

**Safle 5** - Diystyru oherwydd trafferthion negodi gyda perchnogion tir, tebygolrwydd fydd pris prynu yn rhy uchel, problemau technegol lleoli ysgol ar y safle.

**Safle 10 + 8** Diystyru oherwydd trafferthion mynediad i'r safle yn y cyfnod adeiladu ac yn dilyn agor ysgol newydd, cyfamod ar dir safle 8 (defnydd hamdden yn unig), trafferthion cynnal addysg yn ystod gwaith datblygu safle, effaith newid man gwyrdd a llwybr poblogaidd ar y gymuned.

**Safle 1** Safle i weld yn addas ond angen gwaith pellach i gadarnhau ei addasrwydd.

**Safle 11** Safle i weld yn addas ond angen gwaith pellach i gadarnhau ei addasrwydd, angen edrych ar posibilrwydd o brynu mwy o dir.

## 4.3 Cytuno safle ffafredig

Yn dilyn gwaith ychwanegol, cynhaliwyd cyfarfod nesaf o'r Panel ar 24 Mehefin 2020 i drafod y ddau safle ymhellach er mwyn cytuno safle ffafredig. Aethpwyd drwy'r hyn oedd wedi ei wneud â'r materion/risgiau oedd wedi eu darganfod.

| Materion | Safle 1 | Safle 11 |
|---|---|---|
| Maint | Digon mawr | Digon mawr |
| Ecolegol | Dim problemau o bwys | Materion sy'n creu risg mawr i'r prosiect |
| Archeolegol | Dim problemau o bwys | Materion ellir fod yn risg i'r prosiect |
| Technegol | Dim problemau o bwys | Materion sy'n creu risg mawr i'r prosiect |
| Traffig | Dim problemau o bwys | Materion ellir fod yn risg i'r prosiect |
| Costau | O fewn y gyllideb | Dros y gyllideb |
| Amserlen | Dim problemau o bwys | Materion sy'n creu risg mawr i'r prosiect |
| Cynllunio | Dim materion wedi eu amlygu | Dim materion wedi eu amlygu |
| Archwiliad tir | Dim problemau o bwys | Heb ei gwblhau |

**Safle 11**
Fel y gwelir o’r tabl uchod roedd nifer o faterion ynghlwm â’r safle yma oedd yn creu risgiau i’r prosiect. Cytunwyd felly i ddiystyru y safle hwn fel opsiwn.

**Safle 1**
Yn dilyn gwaith pellach ar y safle yma, gan gynnwys archwiliadau ecolegol ac archeolegol ni ddarganfuwyd unrhyw broblem technegol, archeolegol nac ecolegol fydda’n golygu problemau o bwys wrth ddatblygu’r safle. Yr unig bwynt i’w nodi oedd yr angen i warchod y coed a chael gwared o blanhigyn o un man o’r safle.

Oherwydd yr hyn nodiwyd am y ddau safle roedd pawb ar y Panel yn gytûn mae hwn oedd y safle mwyaf addas ar gyfer lleoli’r ysgol newydd.

# 5.Y Cynnig

Yn dilyn gwerthusiad o’r opsiynau posibl, y cyfeiriad ffafrir a'r cynnig sy’n destun yr ymgynghoriad statudol hwn yw i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 gan adleoli yr ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

## 5.1 Lleoliad y safle
Lleolir y safle ar ochr orllewinol tref Cricieth.

**Cynllun safle cysyniadol**



Mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i sicrhau diogelwch pawb i gyrraedd yr ysgol yn ystod y broses gynllunio. Dyma enghreifftiau o'r hyn fydd yn digwydd:

- Bydd newid i gyflymder ganiateir ar y prif ffordd gyda terfyn cyflymder 30mya yr A497 i symud i'r ochr gorllewinol o'r safle a pharth 20mya wrth fynedfa'r ysgol.

- Bydd lôn troi i'r dde ar yr A497 mewn i'r ysgol ag ynys yn y ffordd.

- Bydd mynediad troed yn unig ychwanegol o gyfeiriad y dref i'r ysgol.

- Bydd goleuadau stryd i ymestyn ar hyd blaen y safle o ymyl y dref.

## 5.2 Sut fydd yr ysgol yn edrych?

Mae'r penseiri wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ar ddyluniad posib ar gyfer yr ysgol. Mae'r cynlluniau cychwynnol wedi eu rhannu gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Treferthyr er mwyn derbyn eu sylwadau a mewnbwn. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau a mi fydd mewnbwn yr ysgol yn bwysig ar hyd y daith o gynllunio i agor yr ysgol.

Mi fydd y cynlluniau hefyd yn cael eu rhannu gyda'r gymuned ehangach mewn amser fel rhan o'r broses caniatâd cynllunio.

Gweler isod gynlluniau cysyniadol diweddaraf o sut all yr ysgol edrych.





## 5.3 Beth fydd effaith y cynnig?

Mi fydd y cynnig yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle A497 i gorllewin o dref Cricieth. Mi fydd yr ysgol yn cael ei adeiladu ar gyfer 150 o blant o oed derbyn i blwyddyn 6 gyda dosbarth meithrin. Mi fydd yr ysgol hefyd yn cynnig lle ar gyfer defnydd blynyddoedd cynnar ac Uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar ac anhwylder iaith.

| | |
|---|---|
| **Lleoliad** | Tir ar ochr orllewinol tref Cricieth |
| **Ystod oedran** | 3-11 |
| **Categori'r ysgol (cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir)** | Cymunedol |
| **Categori Iaith** | Cyfrwng Cymraeg |
| **Dyddiad gweithredu** | 1 Medi 2023 |
| **Niferoedd posib a ragwelir - Medi 2023** | 141 |
| **Nifer a dderbynnir** | 21 |
| **Capasiti (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraethwyr Cynulliad Cymru 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)** | 150 |
| **Ansawdd yr adeilad a'r ystafelloedd dosbarth (Categori Cyflwr Adeilad)** | A |

Bydd yr ysgol bresennol yn cau gan symud y disgyblion i'r ysgol newydd ar 1 Medi 2023.

## 5.4 Ansawdd a Safonau Addysg

Wrth roi'r prosiect ar waith, bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion ac unrhyw ran-ddeiliaid perthnasol er mwyn helpu i sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arwain effeithiol ac yn darparu profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd
Ein gobaith yw y bydd penaethiaid yn cael digon o gyfle i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol ar gyfer eu hysgolion. Hefyd rydym yn disgwyl i gyrff llywodraethol arwain ysgolion yn effeithlon o fewn eu cyllidebau er budd y disgyblion. Byddwn yn disgwyl i ysgolion fod a'r staff gorau ar gyfer darparu addysg o'r ansawdd orau.

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Ngwynedd. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r ysgol yn 2018 ble nodwyd yn yr adroddiad fod:

'staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog, sy'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu i'w llawn botensial ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.'

Caiff canlyniad yr arolygiad diweddaraf o Ysgol Treferthyr, gynhaliwyd yn Ebrill 2018, ei nodi isod:

| Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|
| Da | Da | Da | Da | Da |

Gellir weld yn adroddiad llawn yn 'Adroddiad arolwg Estyn Ebrill 2018'.

Rhagwelir bydd cynyddu capasiti yr ysgol i 150 ac adeiladu ysgol newydd i safonau Ysgolion 21ain Ganrif yn cael effaith bositif ar godi safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu, cynnig profiadau addysgu a dysgu gwell, gwella arweiniad a chymorth gofal a hwyluso arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn.

Drwy gydol y cyfnod pontio, bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cymorth a heriau priodol gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod y safonau, llesiant ac agweddau ar ddysgu, addysgu a dysgu, gofal, arweiniad a chymorth a'r arweinyddiaeth yn parhau i fod yn effeithiol.

## 5.5 Trefniadau Llywodraethol

Ni fydd unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu Ysgol Treferthyr yn sgil y cynnig hwn. Bydd y corff llywodraethu yn parhau ar ei ffurf bresennol.

## 5.6 Materion yn ymwneud â'r Staff

Mae gan staff yr ysgol rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel a drwy feithrin perthnasau cadarnhaol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda disgyblion a rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o addysg eu plant.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cadw profiadau a chymorth aelodau presennol o staff yr ysgol yn helpu'r disgyblion yn ystod y cyfnod pontio yn bwysig. Ni fydd y cynnig yn ystyried gwneud unrhyw newid yn y trefniadau staffio presennol.

## 5.7 Tir ac adeiladau

Gan nad ydi'r safle ar gyfer yr ysgol newydd ym mherchnogaeth y Cyngor bydd angen prynu'r tir. Mae Adran Stadau y Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda pherchennog y tir ac wedi cytuno ar opsiwn i brynu.

Ni fydd angen y safle presennol ar gyfer defnydd addysg yn dilyn symud yr ysgol a bydd y Cyngor yn ystyried ei ddefnydd i'r dyfodol.

## 5.8 Costau cyfalaf

Rhagwelir bydd cost datblygu'r cynllun tua £5.4m gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru i'r prosiect yn £3.51m a chyfraniad y Cyngor yn £1.89m Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi cytuno i neilltuo cronfa tuag at y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â phrosiectau Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) dan Gynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019-2029.
Er bod cynnydd yn y gost gychwynnol o ganlyniad i gwaith datblygu'r ddarpariaeth newydd, rhagwelir y bydd dull strategol gwell o reoli ystâd yr ysgol a llai o waith cynnal a chadw sydd wedi'i ôl-gronni yn creu arbedion tymor hir i gymharu a cheisio gwella a chynnal y ddarpariaeth bresennol.

Mae posibilrwydd gallai gwaredu a'r safle presennol greu derbyniad cyfalaf a fyddai'n helpu i gefnogi cynlluniau strategol yn y dyfodol.

## 5.9 Costau refeniw

Caiff costau refeniw ysgolion eu cytuno yn flynyddol yn ddibynnol ar nifer disgyblion a materion eraill. Mae Ysgol Treferthyr wedi derbyn dyraniad cyllidol o £442,762 am y flwyddyn 2020-21 sy'n golygu fod cyfartaledd y gost fesul disgybl yn £4,215. Cyfartaledd cost y pen holl ysgolion cynradd Gwynedd am yr un cyfnod ydi £4,198.

Bydd yr adeilad newydd yn arwain at newid i elfennau 'adeiladau' o fewn y fformiwla cyllido.

## 5.10 Cludiant

Gan fydd yr ysgol newydd yn parhau i fod yn nhref Cricieth ac yn gwasanaethu yr un dalgylch ni ragwelir unrhyw newid yn nhrefn cludiant presennol. Mae polisi cludiant yr Awdurdod yn nodi bydd cludiant yn cael ei gynnig os bydd y daith i'r ysgol neu safle ysgol yn fwy na 2 filltir. Ar hyn o bryd mae 3 plentyn yn derbyn cludiant i Ysgol Treferthyr.

## 5.11 Amgylchedd dysgu

Mi fydd yr ysgol newydd yng Nghricieth yn cymryd lle ysgol sydd mewn cyflwr gwael iawn a gyda phroblemau addasrwydd. Golygai hyn y bydd plant dalgylch Treferthyr yn mwynhau gallu cael eu

haddysgu mewn amgylchedd ddysgu modern addas i bwrpas unwaith fydd yr ysgol newydd wedi ei chwblhau.

## 5.12 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith y bydda adleoli'r ysgol i safle newydd yn ei gael ar yr Iaith Gymraeg. Gweler yr adroddiad llawn yn Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant.

Ein disgwyliad yw bod ysgolion Cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion. Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.
Nodir yr asesiad na fydda adleoli Ysgol Treferthyr i safle newydd yng Nghricieth yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. I'r gwrthwyneb, rhagwelir bydda mwy o gyfleoedd i blant Cricieth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion yn allgyrsiol ac yn gymdeithasol gan fydd yr ysgol newydd yn golygu gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20**
Mae Ysgol Treferthyr, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

• Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.

• Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

• Yn Cyfnod Allweddol 2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Gan mae adleoli Ysgol Treferthyr presennol y byddwn, a nad oes bwriad i newid unrhyw ysgol arall, rhagwelir fyddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu parhau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20, a thargedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol hwnnw.

## 5.13 Asesiad Cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad B (Eitem 6, Cyfarfod o'r Cabinet 13 Hydref 2020) Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant.

Deuir i gasgliad na fyddai adleoli Ysgol Treferthyr i safle arall yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.
Rhagwelir fydd adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y bydd yn mwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, gan gynnwys y rhai ac anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.
Gweithredir Ysgol Treferthyr bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio gadarn fyddai'n parhau i gael eu gweithredu yn yr ysgol newydd.

## 5.14 Asesiad Llesiant

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg disgyblion ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant.

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i, a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

## 5.15 Asesiad effaith ar y gymuned

Cwblhawyd asesiad effaith ar y gymuned ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a Llesiant.

Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y gymuned o ad-leoli Ysgol Treferthyr i'r safle newydd.
Rhagwelir bydd cyfleusterau modern yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol sydd yn defnyddio'r ysgol bresennol a rhai newydd. Wrth sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau modern.
Mi fydd adeiladu'r ysgol newydd yn sicrhau mwy o le ar gyfer y dysgwyr ac i gynnig mwy o opsiynau ar gyfer clybiau a gweithgareddau all-gyrsiol.
Er nad yw'r lleoliad mor ganolog i'r dref a'r ysgol bresennol mi fyddai'r ysgol newydd dal yn gyfleus i'r dref ac o fewn cyrraedd hawdd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach fedru defnyddio'r adnoddau.

## 5.16 Manteision ac anfanteision y cynnig

| **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|
| Darparu ysgol newydd gyda chapasiti o 150 sydd yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif | Lleoliad ddim mor ganolig i'r dref er y bydd llai na hanner milltir o safle presennol yr ysgol |
| Digon o le ar gyfer holl blant y dalgylch | Bydd angen cynnal cyfnod pontio ar gyfer y disgyblion a bydd angen ystyried y cymorth priodol sydd angen arnynt i symud i ysgol newydd yn esmwyth |
| Creu Uned Arsylwi Blynyddoedd Cynnar ac anhwylder iaith newydd | Lleoliad oddi ar ffordd fawr ond bydd camau yn cael eu cymryd i sicrhau na fydd hyn yn creu problem mynediad nac unrhyw rwystr i ddefnyddwyr. |
| Creu gofod darpariaeth blynyddoedd cynnar | |
| Popeth ar un llawr yn golygu mynediad hawdd i bawb | |
| Darparu cyfleuster ynni effeithlon | |
| Darparu amgylchedd dysgu gwell, sy'n cwrdd â'r gofynion modern ar gyfer gofod, golau ac awyru | |
| Ystafelloedd dosbarth o'r radd flaenaf | |
| Cyfleuster arlwyo newydd a neuadd hyblyg | |
| Cyfleuster newydd ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored | |
| Amgylchedd ddysgu i gyflawni deilliannau o ansawdd uchel i ddysgwyr | |
| Darpariaeth hyblyg ellir ei ddefnyddio gan y gymuned ehangach | |
| Cael gwared o ysgol sydd mewn cyflwr gwael ac yn anaddas ar gyfer addysg 21ain Ganrif | |
| Gallu parhau a'r strwythur staffio presennol | |

### 5.17 Risgiau posib ynghlwm â'r cynnig

Caiff y risgiau eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â gweithdrefnau rheoli risgiau y Cyngor

| Risg | Effaith | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| Lleoliad safle yr ysgol newydd | Angen ystyried sut fydd plant yn cyrraedd yr ysgol mewn modd diogel | • Mi fydd newid i gyflymder ganiateir ar y prif ffordd gyda terfyn cyflymder 30mya yr A497 i symud i'r ochr gorllewinol o'r safle a pharth 20mya wrth fynedfa'r ysgol<br>• Mi fydd lôn troi i'r dde ar yr A497 mewn i'r ysgol ag ynys yn y ffordd<br>• Pwysleisio anaddasrwydd rhai ffyrdd i'r ysgol<br>• Ystyried gosod arwyddion i rybuddio cerbydau fod plant yn defnyddio'r ffordd<br>• Gosod goleuadau stryd i ymestyn ar hyd blaen y safle o ymyl y dref<br>• Creu mynediad troed yn unig i'r safle o gyfeiriad y dref i'r ysgol |
| Amharodrwydd lleol i gefnogi yr ysgol newydd | Gallai hyn leihau nifer y disgyblion a'r adnoddau ariannol sydd ar gael | • Cynnal cyswllt cymunedol lleol, gan eu hysbysu am ddatblygiadau a manteision adnoddau a gynhwysir yn y cynllun |

# 6.Camau Nesaf

## 6.1 Proses ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau **dydd Gwener, 6 Tachwedd 2020**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor.

Mae fersiwn syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i blant. Mae'r fersiwn hon ar gael ar wefan y Cyngor.

Am ragor o wybodaeth ewch i: **Wefan Moderneiddio Addysg**

Os ydych yn dymuno copi papur o’r ddogfen hon neu ei dderbyn ar ffurf wahanol, cysylltwch â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01286 679640.

Rhaid cyflwyno sylwadau ar y cynnig yn ysgrifenedig neu drwy gwblhau’r **ffurflen ymateb electroneg** er mwyn iddynt gael eu ystyried fel rhan o’r ymgynghoriad.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **13:00 dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei greu a’i gyflwyno i Cabinet Cyngor Gwynedd. Bydd yr adroddiad yn nodi'r holl sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymatebion iddynt. Ar y cam yma, bydd aelodau’r Cabinet yn penderfynu os ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.

## 6.2 Amserlen arfaethedig

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| **6 Tachwedd 2020** | **Cychwyn cyfnod ymgynghori statudol:** O leiaf 42 diwrnod i’r ymgynghorai ymateb, o leiaf 20 diwrnod o’r dyddiau hynny yn ddyddiau ysgol. |
| **18 Rhagfyr 2020** | **Dyddiad cau’r ymgynghoriad statudol:** Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| **Ionawr 2021** | **Cabinet:** Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet. Bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen a’r cynnig ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Cyngor. |
| **Chwefror 2021** | **Cyhoeddi rhybudd statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a’r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Mai 2021** | **Y Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Mehefin 2021** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **Mehefin 2021 – Mehefin 2023** | Prynu tir, dylunio, cais cynllunio, adeiladu, dodrefnu |
| **1 Medi 2023** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Treferthyr yn symud i safle newydd |

## 6.3 Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad?

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma eich cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r **ffurflen ymateb electroneg** neu ei chwblhau a'i dychwelyd i:

**E-bost:** moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Ysgol Treferthyr
Lon Henbont
Cricieth
Gwynedd
LL52 0DS